Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llangennech
# The Parc Pavilion
# Recreation Ground
# Sation Road Llangennech
# SA14 8UB

**Dyddiadau'r arolygiad: 31 Ionawr, 1 Chwefror 2012**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Ynglŷn â'r cylch

Mae Cylch Meithrin Llangennech yn cael ei chynnal yn unol â chanllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin. Y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989.

Fe'i sefydlwyd dros ddeg mlynedd ar hugain yn ôl yn Ysgol Iau Llangennech ond wrth i rifau'r ysgol gynyddu, symudodd y cylch yn 2009 i adeilad amlbwrpas yn y pentref sef pafiliwn criced Llangennech. Defnyddir yr adeilad gan nifer o fudiadau gwahanol a golyga hyn bod angen i'r staff osod yr offer allan ar fore Llun a'i roi heibio ar brynhawn dydd Gwener yn y gaeaf. Yn ystod yr haf maent yn rhoi'r offer allan pob bore a'i roi heibio pob prynhawn. Tu allan mae cae mawr a choedlan ar ben pella'r cae ac mae parc plant bach gerllaw.

Mae'r cylch yn darparu gofal ar gyfer plant o'r gymuned leol a'r ardaloedd o'i chwmpas ar bum bore'r wythnos o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9.00 y bore ac 1.00 y prynhawn yn ystod tymhorau ysgol. Derbynnir plant o ddwy a thair blwydd oed ac maent yn gadael pan fyddant yn dechrau eu haddysg statudol yn Ysgol Babanod Llangennech neu ysgolion eraill yn yr ardal. Ar hyn o bryd mae tri deg saith o blant ar y gofrestr a llenwir dau ddeg pedwar lle pob dydd; fe ariannir un deg tri o'r plant.

Cydnabyddir yr ardal fel un nad yw'n freintiedig na chwaith yn ddifreintiedig.

Uned Gymraeg ei chyfrwng yw hon ond fe'i mynychir hefyd gan blant sydd â chefndir iaith amrywiol ac mae croeso i ddisgyblion ethnig. Dim ond un plentyn o dair blwydd oed sy'n dod o gartref lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Ar hyn o bryd nid oes un plentyn wedi'i nodi ag anghenion addysg ychwanegol. Mae'r plant nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg drwy eu profiadau yn y feithrinfa a thrwy'r Gymraeg a siaredir gan yr ymarferwyr.

Cyflogir pedair aelod o staff, gan gynnwys yr arweinyddes, sy'n mynychu pob sesiwn. Mae ganddynt gymwysterau priodol yn addysg blynyddoedd cynnar gan gynnwys NVQ Lefel 3. Cyflogir un gynorthwywraig rhan amser yn ogystal â'r ymarferwyr llawn amser. Mae'r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Rheolir y cylch gan bwyllgor rheoli.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar 11eg o Orffennaf 2011 ac arolygwyd y cylch gan Estyn ym mis Mawrth 2006 cyn symud i'r lleoliad presennol

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad cyfredol yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- teimla'r plant yn hapus a diogel yn y lleoliad;
- y profiadau cyffrous sy'n ymateb yn dda i ddiddordebau'r plant;
- safon yr addysgu sy'n gyson dda;
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf, a'r
- partneriaethau cryf gyda'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae diwylliant o adlewyrchu proffesiynol sydd wedi ei selio ar hunan-arfarniad;
- safon dda'r arweinyddiaeth;
- ymrwymiad y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, a
- gwaith tîm effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y ddarpariaeth a'r cyflawniadau yma bydd angen:

A1 ymestyn y defnydd o gwestiynau pen agored er mwyn ymestyn ymhellach medrau meddwl y plant, a

A2 parhau i ddatblygu'r broses o hunan-arfarnu a monitro'r targedau a osodwyd yn rheolaidd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y caiff yr argymhellion yma eu cyflawni.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn cyflawni'n dda o'u man cychwyn a'i cyfnod datblygiad a gwna pob plentyn gynnydd da ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Datblyga bron pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd yn dod o gartrefi di-gymraeg, eirfa a phatrymau iaith cadarn. Dealla a chyflawna'r mwyafrif yn gywir gyfarwyddiadau ac atebant gwestiynau yn briodol. Wrth siarad defnyddia'r mwyafrif frawddegau llawn gydag anogaeth yr oedolion. Gwrandawant gyda diddordeb ar stori gan ganolbwyntio'n dda a chydadrodd darnau adnabyddus. Datblyga'r mwyafrif eirfa eang a defnyddiant hon tra'n chwarae rôl weithiau.

Hoffant ganu caneuon yn fawr iawn ac ynganant yn glir. Mwynha'r mwyafrif bori drwy lyfrau ac ânt i ddewis llyfrau o'u gwirfodd a'u trafod fel darllenwyr. Mae pawb yn mwynhau gwneud marciau y tu fewn ac yn yr ardal tu allan ac arbrofant yn hyderus ag ystod eang o ddeunyddiau. Defnyddia pob plentyn iaith fathemategol gywir wrth gymharu hyd, taldra neu faint pethau tra'n chwarae. Defnyddia'r mwyafrif eu bysedd i rifo ac adnabyddant siapau cyffredin. Datblygant eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda wrth ddefnyddio'r cliniadir a rhaglenni cyfrifiadurol,'i pod' a meicroffon trydanol i recordio a dilyn cyfarwyddiadau.

Dangosa'r mwyafrif sgiliau creadigol da tra'n chwarae rôl, ymateb i fiwsig trwy ddawns ac yn eu gwaith celf.

Datblyga'r mwyafrif lefelau da o annibyniaeth, hunan hyder, a hunanlywodraeth. Gall y mwyafrif ganolbwyntio am gyfnodau estynedig tra'n chwarae ac archwilio eu hamgylchedd y tu allan ac maent i gyd yn mwynhau eu dysgu.

**Lles: Da**

Y mae'r plant yn mwynhau eu profiadau yn y cylch. Rhydd y berthynas agos a chynnes rhwng yr oedolion a'r plant ymdeimlad o ddiogelwch a boddhad iddynt. Dengys hunan hyder a hapusrwydd y plant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a dangosant hwythau, yn eu tro, barch a hoffter tuag at yr oedolion. Dangosant gonsyrn tuag at ei gilydd, yr ymarferwyr ac ymwelwyr.

Dealla pob un bod bwyta'n iach, hylendid dannedd a chadw'n heini'n bwysig i'w hiechyd ac enwant fwydydd iach a phethau na ddylent fwyta. Mwynhânt fwyta cinio gyda'i gilydd bob dydd ac maent yn ymddwyn yn hyfryd wrth y ford. Mae pob plentyn yn mynd i'r tŷ bach ar ei ben ei hunan ac yna'n golchi ei ddwylo.

Mae gan bawb agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at ddysgu gan gymryd rhan weithredol ac egnïol yn eu profiadau dysgu ac ymddwyn yn dda iawn.

Y maent yn gwrtais bob amser a dengys y mwyafrif ystyriaeth tuag at eraill. Gwna'r mwyafrif ffrindiau yn y feithrinfa ac y maent yn hoff iawn o'i gilydd. Chwiliant am eu ffrindiau i ddod i chwarae gyda nhw a dangosant gonsyrn amdanynt.

Gwna'r holl blant benderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu ac y mae bron pob plentyn yn hyderus iawn.

Mwynhânt eu hymweliadau cyson i'r gymuned leol gan ymweld â'r parc a'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Dechreua'r broses o gynllunio ar ôl i'r ymarferwyr werthuso a thrafod darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos. Trafodant gylawniadau ac anghenion pob plentyn unigol yn ogystal â materion cyffredinol. Caiff yr asesiadau a wneir eu hystyried a defnyddia'r ymarferwyr yr holl wybodaeth hon i gynllunio'r cylch nesaf o ddarpariaeth. Ymateba'r cynllunio yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant a chynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Y mae'r cynllunio yn hyblyg a gwelwyd yr ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Adeilada'r oedolion ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt.

Mae bron pob plentyn yn datblygu'n ddysgwr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol a datblyga pob un fedrau meddwl, creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da ymhob maes dysgu. Dangosant sgiliau creadigol da wrth symud i gerddoriaeth. Mae pob un yn dangos diddordeb mawr yn y byd o'u cwmpas a meddant ar wybodaeth dda o ganlyniad i'r pwyslais ar archwilio eu hamgylchedd agos drwy weithgareddau fel archwilio'r amgylchedd naturiol o gwmpas y lleoliad. Hyrwyddir eu gwybodaeth o ddatblygiad cynaliadwy trwy ail-gylchu papur, gwydr a phlastig.

Datblyga'r plant berthynas gadarn gydag eraill a dangosant barch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill.

Caiff y plant eu hannog gan yr ymarferwyr i siarad Cymraeg bob amser ac i ddatblygu eu hiaith trwy wrando ar stori a thrwy ystod eang o rigymau a chaneuon. Dathlant ddiwylliant Cymreig drwy ystod o ffyrdd gan gynnwys cynnal cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi i'r gymuned a thrwy ymweld â llefydd yn y pentref ac ymhellach i ffwrdd sy'n gysylltiedig â'r thema, er enghraifft, castell Cydweli.

**Addysgu: Da**

Medda’r ymarferwyr ar wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes. Deallant yn dda ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Rheolir ymddygiad mewn ffordd dyner a chadarnhaol ac o ganlyniad, fe ddysga’r plant dueddfrydau gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch a charedigrwydd tuag at eraill.

Ar y cyfan mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau pen agored i ymestyn dysgu’r plant ac o bryd i’w gilydd, datblyga’r rhain eu medrau meddwl. Bodlona hyblygrwydd yr addysgu anghenion unigol y plant yn dda. Mae’r trefniant hyblyg yn sicrhau cyfleoedd da i’r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau eu hunain ynglŷn â’u dysgu ac yn datblygu’n dda eu hannibyniaeth a hunan hyder. Rhydd yr ymarferwyr ddigon o amser i’r plant i ymgolli yn eu profiadau dysgu, er enghraifft, tra’n archwilio eu hamgylchedd , ac nid ydynt yn ymyrryd oni bai bod cyfle i ymestyn y dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda’i gilydd. Bwydir y wybodaeth a gasglwyd i mewn i’r cylch nesaf o gynllunio; mae hon yn nodwedd dda. Mesurant gynnydd y plant yn gyson a chadwant gofnod tymhorol o’u cyflawniad ymhob maes dysgu a derbynia’r rhieni adroddiad llawn gwybodaeth am eu plant pan fyddant y gadael i fynd i’r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ymarferwyr wedi creu awyrgylch teuluol a chynhwysol yn y lleoliad. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi a dangosir parch tuag at eu syniadau a’u diddordebau.

Datblygant yn dda ymwybyddiaeth y plant o’r pwysigrwydd o fwyta’n iach ac o gadw’n heini. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu’n dda, er enghraifft, drwy ddathlu Diwali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Gwisgant ddillad a gwrando ar fiwsig Tsieineaidd wrth fwyta cinio o'r wlad honno. Dathlant y prif wyliau Cristnogol megis y Nadolig a'r Pasg a dywedant weddi cyn cinio a chyn mynd tuag adref. Datblygant yn dda synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o’u cwmpas yn enwedig drwy'r cyfleoedd cyson y cânt i archwilio y tu allan.

Mae’r staff yn meithrin y moesau hynny y credant eu bod yn angenrheidiol i ddatblygiad cyflawn y plentyn cyfrifol. Mae’r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd ac maent yn gwybod yn dda beth yw’r gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau ifanc. Mae’r ddarpariaeth yn galluogi’r plant i gymdeithasu’n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fach. Caiff y plant gyfleoedd cyson i wneud penderfyniadau a mwynhânt eu dysgu.

Mae’r berthynas sy’n bodoli rhwng y lleoliad, yr ysgol ac asiantaethau allanol yn dda. Sicrha’r berthynas glos rhwng yr ysgol a’r lleoliad drosglwyddiad arbennig o lwyddiannus i’r plant wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin. Daw pennaeth yr

ysgol i siarad gyda'r plant yn rheolaidd; mae hi'n adnabod y plant yn dda a hwythau'n mwynhau ei chwmni.

Dywedodd detholiad o rieni eu bod yn fodlon iawn ar bob agwedd o ddarpariaeth y lleoliad, yn enwedig datblygiad cymdeithasol eu plant, a theimlant fod eu plant yn derbyn gofal arbennig.

Mae gan y lleoliad bolisi Diogelwch Plant ac mae'r staff yn ymwybodol ohono ac o'r camau i'w dilyn. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant. Mae'r gweithdrefnau angenrheidiol yn weithredol ac adlewyrchant Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Nid oedd yna blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol adeg yr arolwg.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chadarnhaol yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r oedolion yn dangos hoffter a charedigrwydd mawr tuag at bob plentyn. Adnabydda'r ymarferwyr y plant a'u hanghenion a'u diddordebau yn dda iawn ac ymatebant i'r rhain gyda sensitifrwydd gan ddefnyddio eu gwybodaeth drylwyr o gefndiroedd y plant. Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i bob agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r addfwynder a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac ymddygiad da.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol. Cofrestrir y cylch gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac nid oedd unrhyw argymhellion yn ei adroddiad diwethaf. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd. Mae pob ymarferwr wedi derbyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda pob ymarferwr ar gymwysterau addas. Mae'r staff yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn dda a derbynia'r plant brofiadau diddorol sydd yn ymateb yn dda i'w hanghenion penodol. Rhydd yr ystafell fawr ddigon o le i'r plant ymgolli yn eu profiadau dysgu. Dangosa pob plentyn ddiddordeb, consyrn a charedigrwydd tuag at ei gymheiriaid, yr oedolion ac ymwelwyr.

Mae'r staff yn defnyddio'r ardal tu allan yn gyson er mwyn symbylu'r plant a chaniatáu cyfleoedd iddynt ymrwymo'n llawn gyda phethau sydd o ddiddordeb iddynt. Defnyddiant yr ardal hon i hyrwyddo sgiliau'r plant ymhob maes dysgu a'u gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau. Mae defnydd y lleoliad o'i amgylchedd agos a'r gymuned yn cyfoethogi eu profiadau dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinyddes yn rhoi cyfarwyddyd clir a phendant i holl fywyd y lleoliad a’r broses o welliant. Cydweithia hi a’i dirprwy yn dda iawn a rhannant egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi ei selio ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael ei gweithredu trwy’r profiadau dysgu uniongyrchol a diddorol a gaiff y plant a'r system trefniant sydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â’u dysgu. Fe'u gwelir hefyd yn y ddarpariaeth sy'n rhoi iddynt gyfleoedd da i fagu hunan hyder ac annibyniaeth ac i wneud cynnydd da.

Cyflawna pawb eu cyfrifoldebau’n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i’w rôl er lles y plant. Cyfranna’r arweinyddes a’r dirprwy tuag at gynllunio strategol y lleoliad. Rhanna’r arweinyddes a’r dirprwy'r gwerthoedd y maent am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrafodaeth gyson. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’u hunain ac o’r plant yn ogystal â thargedau sydd yn sicrhau darpariaeth dda a safonau uchel o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at eu cyflawni ei fonitro’n gyson.

Y plentyn a’i anghenion a diddordebau unigryw sydd wrth ganol pob peth a llwydda’r arweinyddes a’i dirprwy greu ethos cadarnhaol a hapus.

Mae’r cynllun gwella lleoliad sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau hunan arfarnu’r lleoliad yn rhoi cyfeiriad clir i fywyd a gwaith y lleoliad.

Mae’r pwyllgor rheoli yn ymwybodol iawn o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad. Deallant a chyflawnant eu rolau’n dda iawn. Gwyddant yn dda am berfformiad y lleoliad a cheir trafodaethau rheolaidd yn y cyfarfodydd tymhorol. Daw’r person cofrestredig i’r lleoliad yn rheolaidd ac elwa’r lleoliad yn fawr ar ei chefnogaeth. Defnyddia’r pwyllgor wybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol a chyflawnant eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae’r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a’r awdurdod lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna’r lleoliad ddefnydd effeithiol o’u hunan arfarnu i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae’r adroddiad hunan arfarnu yn drylwyr ac arweinia at strategaethau cadarn ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Ymgynghora’r arweinwyr â rhieni a gofalwyr i fwydo’r hunan arfarnu. Defnyddiant y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth holiaduron i rieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu.

Defnyddiant yn effeithiol gefnogaeth athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a’r swyddog Mudiad Meithrin a gweithredant yn llwyddiannus eu hargymhellion.

Yn sgîl y broses o hunan arfarnu cynhyrchir cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sydd yn canolbwyntio ar godi safonau trwy wella’r ddarpariaeth a gosod targedau clir. Mae pob un o’r ymarferwyr yn cyfrannu at y broses hon.

Mae pob ymarferwr yn derbyn cyfweliad gwerthuso gyda'r arweinyddes ac aelod o'r pwyllgor rheoli yn flynyddol er mwyn adnabod ei hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus. Mynychant gyrsiau hyfforddiant mewn-swydd yn gyson a gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn a ddysgant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ffordd y cydweithia'r lleoliad ag eraill i gyflwyno profiadau dysgu yn nodwedd ragorol. Gweithia'r arweinyddes yn agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd clwstwr lleoliadau tebyg yn yr ardal yn rheolaidd i rannu arfer dda a chaiff y bartneriaeth hon effaith bositif ar y ddarpariaeth ac ar safonau. Mae cyswllt agos iawn hefyd gyda meithrinfa breifat yn yr ardal sydd yn arwain at bartneriaeth fuddiol iawn ynglŷn ag ymestyn arfer dda.

Gweithia'r staff yn agos iawn gyda'r rhanddeiliaid ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i weithredu awgrymiadau gan y rhieni a'r gwarchodwyr.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol yn nodwedd ragorol. Daw'r athrawes feithrin a'r pennaeth i ymweld â'r plant yn rheolaidd a derbynia'r staff wybodaeth ddefnyddiol ac awgrymiadau ynglŷn â gwelliant sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Rhennir arbenigedd ac adnoddau rhwng yr ysgol a'r lleoliad ac mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o hyn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Lleolir ymarferwyr yn ofalus er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda. Defnyddiant adnoddau y tu fewn a thu allan mewn ffordd greadigol er mwyn darparu profiadau cyffrous i'r plant ac ehangu eu gorwelion. Mesurant effaith yr adnoddau ar y dysgu a'r addysgu a chynlluniant ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Defnyddiant yr awyr agored yn dda i ddatblygu medrau'r plant ymhob maes dysgu.

Gwna'r arweinwyr y defnydd gorau bosib o adnoddau'r lleoliad ac o'r cyllid i gynnig y ddarpariaeth gorau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant eu bônt yn hapus iawn yn y cylch. Soniant am eu ffrindiau a dywedant eu bod yn gwybod beth i'w wneud petaent yn anhapus neu yn gofidio am rywbeth.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |